
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 1363 (Cy. 236)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Cyflog ac Amodau
Athrawon Ysgol (Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol (o fewn ystyr adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32)) yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ("y Ddogfen"). Gellir canfod y Ddogfen ar wefan Llywodraeth Cymru, www.llyw.cymru.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol, o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002, er mwyn darparu bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2019 er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2018 fel y mae'n gymwys yng Nghymru (erthygl 3).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Uned Strategaeth y Gweithlu, Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 1363 (Cy. 236)

ADDYSG, CYMRU

**Gorchymyn Cyflog ac Amodau
Athrawon Ysgol (Cymru) 2019**

Gwnaed 18 Hydref 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 22 Hydref 2019

Yn dod i rym 12 Tachwedd 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122(1), 123 a 124 o Ddeddf Addysg 2002(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 126(3) o'r Ddeddf honno wedi ymgynghori â'r personau hynny a'r cyrff hynny y cyfeirir atynt yn yr adran honno yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019 a daw i rym ar 12 Tachwedd 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i athrawon ysgol(4) yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddogfen" yw'r ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019 a chanllawiau ar

-
- (1) 2002 p. 32. Diwygiwyd adrannau 122 a 123 gan adran 5(1) o O.S. 2010/1158 a chan baragraff 11 o Ran 1 o Atodlen 2 iddo.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).
- (3) Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).
- (4) Diffinnir "school teacher" at y dibenion hyn yn adran 122(3) i (6) o Ddeddf Addysg 2002.

gyflog ac amodau athrawon ysgol” dyddiedig Medi 2019⁽¹⁾.

Y Ddogfen

2. Mae’r darpariaethau a nodir yn adran 2 o’r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2019 at ddibenion penderfynu—

- (a) y tâl ar gyfer athrawon ysgol, a
- (b) amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol sy’n ymwneud â’u dyletswyddau proffesiynol a’u hamser gweithio.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2018⁽²⁾ wedi ei ddirymu i’r graddau y mae’n gymwys mewn perthynas ag athrawon ysgol yng Nghymru.

Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
18 Hydref 2019

(1) Cyhoeddir ar-lein ar <https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth>.

(2) O.S. 2018/998.